



Yn glocwedd o'r chwith i'r dde: Al Murray, Elkie Brooks, Here Come The Boys, The Spooky Mens Chorale, Wallace & Gromit's Musical Marvels

# Cynnwys

**02-03**

## Dan sylw

Awgrymiadau digwyddiadau Actifyddion Artistig a bwyd blasus at eich ymweliad.

**04-05**

## Proffil

Judie Tzuke, Beverley Craven a Julia Fordham.

Tair o gantoresau-gyfansoddwyr mwyaf hoff ac enwocaf gwledydd Prydain mewn cydweithrediad dihafal: Woman to Woman.

**06-29**

## Ar Fynd

Manylion yr holl ddigwyddiadau tan gamp yn y Neuadd ym misoedd Mehefin a Gorffennaf 2019 a Maes o Law.

**30-32**

## Gwybodaeth am Godi Tocynnau

Sut i godi'ch tocynnau a manylion ein disgowntiau.



Dilynwch ni ar Twitter:  
[twitter.com/NeuaddDewiSant](https://twitter.com/NeuaddDewiSant)



Rydym ni ar Facebook:  
[www.facebook.com/NeuaddDewiSant](https://www.facebook.com/NeuaddDewiSant)

Os nad oes arnoch bellach eisiau cael manylion digwyddiadau i ddod yn y New Theatre/Neuadd Dewi Sant, cysylltwch â'n swyddfa docynnau ar 02920 87 84 44 a gofyn am gael eich tynnu oddi ar ein rhestr bost. Mae Cyngor Caerdydd yn gofrestredig gyda'r Swyddfa Comisiynwyr Gwybodaeth, rhif Z5832396.

## Y LOLFA JIN

### Y LOLFA JIN

Mae ein Lolfa Jin foethus ar Lefel 4 ar agor i bob perfformiad gyda'r hwyr yn yr Awditoriwm.

Champagne, gwin blasus a chwrw crefft, sioe wych o ddiodydd ysgafn heb sôn am dros ddeugain math o jin o bedwar ban byd:

Cwmni Suntory chwedlonol Japan sy'n gwneud, **Roku**, o ddail a blodau Sakura at y gwanwyn, te sencha a the gyokuro at yr haf, pupur sansho at yr hydref a chroen yuzu at y gaef.

Gewch chi flasw'r **Sharish Blue Magic** egsotig o dref ganoloesol Monsaraz ym Mhortiugal. Mae ei liw glas godidog yn dod o rin blodyn o'r enw pysen las; pan gymysgwch chi'r jin â thonig mae'n troi'i liw'n binc hudol. Ymhlith y planhigion ynddo mae'r eithinen bêr, llysiau'r bara, gwreiddlysiau'r angel, sinsir, sinamon, cardamom, croen lemon, mefus a mafon.

O'n nes adref mae gennym ddewis amrywiol o jin o Gymru gan gynnwys **Brecon Botanicals**, jin graenus a wneir fesul ychydig yn Nistyllfa Penderyn. Mae iddo flas perlysiau, yr eithinen bêr ac arni flas y pridd a sbeisys y Dwyrain, awgrym o sinamon a bergamot. Mae Jin Gwymon **Dà Mhile** (a ynganir Da File), jin a wneir fesul ychydig yng Ngheredigion, wedi'i drwytho â gwymon i roi iddo naws y glannau. Ac yn Jin Sych **Cardiff Eccentric** glywch chi flas llysieuog rhywiog rhosmari, ffenig, suran a gwylys



### RYDYM YN Y LOLFA'N YFED JIN

a nodau sitrws lemonwellt a'r ferfain lemonaidd. Fe'i gwneir â'r eithinen bêr naturiol a dyfir ar y comin yn Llantrisant.

Mae gennym jin clasurol hefyd, yn cynnwys Tanqueray, Sipsmith Sloe Gin, Plymouth Gin a'r Bols Genever clasurol, diledryw o hen resipi gwirodydd o'r flwyddyn 1820. Mae'n hŷn na'r un jin o Loegr ac ohono mae'r ymadrodd cyffredin 'Dutch Courage' yn deillio.

Gobeithio y cawn ni'ch gweld chi yn y Lolfa Jin cyn bo hir!

## Actifyddion Artistig

### CYNLLUN CYFANSODDWYR IFAINC – LEFEL 1

Ydych chi rhwng pymtheg a deunaw oed? Ymunwch â'n Cynllun Cyfansoddwyr Ifainc i ddatblygu eich sgiliau cyfansoddi, lle byddwch chi'n gweithio gyda chyfansoddwyr ac offerynwyr profesiynol.

### GAMELAN CAERDYDD

Mawrth 6-8pm  
Mae repertoire Gamelan

Caerdydd, ensemble gamelan cymuned oedolion Neuadd Dewi Sant, yn cynnwys cyfansoddiadau traddodiadol Java a chyfansoddiadau o'r gorllewin i'r gamelan. Mae croeso i aelodau newydd ymuno â'r cylch gallu cymysg yma, waeth beth fo'u profiad blaenorol.

### SESIYNAU BLASU'R GAMELAN I YSGOLION

Mae'r sesiynau'n para dwyawr fel arfer ac maen nhw ar gael drwy gydol y tymor, yn ddelfrydol i gyfnod allweddol 2 ymlaen.



Am ragor o wybodaeth rhowch ganiad i 029 2087 neu 8572 neu e-bostio [artsactive@cardiff.gov.uk](mailto:artsactive@cardiff.gov.uk)

## Ciniawa

## Bar Pimm's Gwib

## LLEFYDD I FWYTA

Mae Bwyty'r Sêr ar gael i'w hurio'n breifat. Am wybodaeth, cysylltwch â 02920 878463 [st.davidshallcatering@cardiff.gov.uk](mailto:st.davidshallcatering@cardiff.gov.uk)

Mae dewis blasus o Tapas ar gael yn aml yn Lolfa Lefel 3.

I weld pryd mae Tapas ar gael bwriwch olwg ar y prif gofnodion yn y llyfryn neu'r wefan a chwilio am y symbol glas.

 Tapas yn Lolfa L3 Pob platiad £4.50



## PIMM'S PERFFAITH

Dewch aton ni yn Lolfa L3 i'n Bar Pimm's Dros Dro sydd ar gael yn ystod BBC Canwr y Byd Caerdydd a Proms Cymru.

Mae ein staff deheuig wrthi'n brysur yn ymarfer eu technegau cymysgu i ymorol eich bod yn cael y gwydraid perffaith o'r ddiod honno sy'n hanfod yr haf.

£3.85 y gwydraid  
£17.00 y jygiaid (5 gwydraid)



## WOMAN to WOMAN

Judie Tzuke,  
Beverley Craven a  
Julia Fordham



Mae taith *Woman To Woman* yn dwyn ynghyd dair o hoff gantoresau a chyfansoddwyr caneuon gwledydd Prydain, a'r enwocaf, **Judie Tzuke**, **Beverley Craven** a **Julia Fordham**. Mae'r cydweithrediad dihafal yma'n gyfle prin i weld yr artistiaid ill tair yn perfformio eu hits a'u traciau albymau clasurol gyda'i gilydd ochr yn ochr â'u band campus ac adran dannau syfrdanol.

Bydd y profiad bythgofiadwy yma'n gyfle i glywed hoff ganeuon gan gynnwys y llwyddiannau ysgubol drwy'r byd yn grwn *Promise Me*, *Happy Ever After*, *Welcome To The Cruise*,  *Holding On*, *(Love Moves In) Mysterious Ways*, y gân atgofus *Stay With Me Till Dawn* a llawer o ffefrynnau

eraill yn cynnwys y sengl newydd hyfryd *Safe* a chaneuon o'u halbwm nesaf.

### Judie Tzuke

Mae Judie Tzuke yn un o ganwyr-gyfansoddwyr mwyaf toreithiog gwledydd Prydain. Ym 1979 y rhyddhawyd ei halbwm debut *Welcome To The Cruise* yn cynnwys y sengl hit syfrdanol *Stay With Me Till Dawn*. Mae hefyd yn adnabyddus am ei chaneuon *For You*, *Ladies Night*, *Bring The Rain*, *Sportscar*, *Black Furs* ac *I'll Be The One* a rhyddhaodd dros ugain o albymau stiwdio.

### Beverley Craven

Mae Beverley ymhlith y canwyr-gyfansoddwyr mwyaf llwyddiannus



gynhyrchodd gwledydd Prydain erioed. Gwerthodd bedair miliwn syfrdanol o albymau ac ennill byddin o selogion triw. Mae ei rhesiad o lwyddiannau yn y siartiau'n cynnwys *Memories*,  *Holding On*, *Woman to Woman* a'r hit *Promise Me* a werthodd filiynau rhif y gwlith.

### **Julia Fordham**

Mae Julia'n adnabyddus drwy'r byd yn grwn am ei môr o lais contralto a rhyddhawyd ei halbwm début dan ei henw ei hun ym 1988 yn cynnwys y senglau hit *Where Does The Time Go* a *Happy Ever After*. Dilynodd llawer o albymau a llwyddiannau yn y siartiau a'i llwyddiant mwyaf yng ngwledydd Prydain oedd (*Love Moves In*) *Mysterious Ways*.

Yn sôn am y daith sydd ar ddod, meddai'r merched, "We cannot wait to share a stage together, create beautiful vocal harmonies and collaborate on each other's songs."

A phhecyn Cwrdd a Chyfarch ar gael hefyd, mae hon yn addo'n deg bod yn noson fythgofiadwy.

[www.WTWLIVE.COM](http://www.WTWLIVE.COM)

**Mercher 26 Mehefin 7.30pm**

**£29.50 | £35.00 | £37.50**

**VIP: £77.00**

Ar Werth yn Awr



# Ar Fynd

**NEWYDD DDOD I LAW EBRILL**  
**GWENER 19 7.30pm**



**Friday Night Is Music Night Live BBC Radio 2**  
yn cyflwyno

## The Songs of Queen

yn serennu Tom Chaplin

Yn dilyn ymateb digynsail i'w gyngerdd a recordiwyd yn y London Palladium i gyfres BBC Radio 2 *Friday Night Is Music Night*, bydd blaenwr Keane, Tom Chaplin, unwaith eto'n dathlu cerddoriaeth Queen ar daith chwe noson yng ngwledydd Prydain ym mis Ebrill.

Ac iddo'n gefn yr un Leo Green Orchestra 24 darn a gyfeiliodd iddo yn y Palladium, bydd Chaplin yn perfformio sioe o hits yn cynnwys *Somebody To Love*, *Don't Stop Me Now*, *Killer Queen* a *Bohemian Rhapsody* i ddathlu bywyd a cherddoriaeth un o fandiau mwyaf bythol yr oesoedd.

**£42.50 | £57.50 | £62.50**

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £42.50 yr un.

Ar Werth yn Awr

hynt

Tudalen 32

**SADWRN 1** canol dydd,  
3.00pm & 4.30pm



## Gweithdai Gwneud Modelau Gromit

Lefel 1

Rydym wedi ymuno ag Aardman, creaddwyr *Wallace and Gromit*, i gynnig gweithdai gwneud modelau: cyfle tan gamp i ddysgu gan yr arbenigwyr a rhoi cynnig ar wneud eich Gromit eich hun. Ac nid dyna ddiwedd yr hwyl... gallwch animeiddio eich campwaith gartref gan ddefnyddio meddalwedd Animate It! Aardman sy'n hawdd ei ddefnyddio. Fe gewch chi hefyd dystysgrif Gwneuthurwr Modelau Aardman.

Mae'r digwyddiad yma'n addas i bawb dros saith oed. Rhaid i blant i gyd fod yng nghwmni oedolyn. Rhaid i oedolion a phlant fod â thocyn.

©<sup>TM</sup> Aardman/W&G Ltd.  
Cedwir pob hawl.

**£10.00**

Ar Werth yn Awr

hynt

Tudalen 32

## SADWRN 1

1.30pm & 6.00pm



## Wallace & Gromit's Musical Marvels

Matthew Sharp & Steven Magee arweinwyr

Dewch at hoff ddeuawd dynamig pawb, a Wallace yn hwylio i berfformio ei gampwaith cerddorol *My Concerto in Eee Lad* gyda help llaw gan ei gyfaill cu, y ci Gromit...be yn y byd allai fynd o'i le?!

Mae'r profiad rhyngweithiol yma'n cynnwys animeiddiadau wedi'u creu'n arbennig yn ogystal â chyfeiliant cerddorfaol byw a giamocs gan y Picture House Orchestra a'r cyflwynydd Matthew Sharp.

Wedyn dangosir y ffilm enillodd Wobr Academy® 'Wallace & Gromit: The Wrong Trousers' a'r gerddorfa'n perfformio'r trac sain yn fyw ar lwyfan – does dim dau na fydd yn ddiwrnod i'r brenin tan gamp i'r teulu i gyd.

©™ Aardman/W&G Ltd 2018.

**£19.00 | £21.00**

Tocyn Teulu (4 o bobl yn cynnwys o leiaf un oedolyn): £16.00 yr un £18.00 yr un. Plant dan 18: pob tocyn £2.00 yn rhatach. Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £19.00 yr un. Ar Werth yn Awr



## LLUN 3 7.30pm



## Al Murray

Landlord of Hope  
and Glory

"Citizens of Hope and Glory! Our new tomorrow beckons. A new tomorrow that smells reassuringly of yesterday, but with wifi.

One last heave and we will be there. And when the going gets tough the tough get going. Although the going won't get tough and anyone who tells you it is going to be tough is lying.

Come join me to marvel at the majesty of our green and pleasant land. A land globally renowned for our culture, history and places, like the world-famous Salisbury Cathedral.

Join me to step backwards into the future."

**£29.50**

Ar Werth yn Awr



# Ar Fynd

MAWRTH 4 8.00pm

MERCHER 5 7.30pm



## Gwrandor Gwreiddiau

### Blair Dunlop

Mae Blair Dunlop, y canwr, y cyfansoddwr caneuon a'r gitarydd o Brydain bellach wedi rhyddhau tri albwm, dwy EP ac wedi teithio'n eang drwy'r byd yn grwn. Mae hyn i gyd, o fewn gyrfa bedair blynedd fer, yn syfrdanol ynddo'i hun ond beth sy'n gosod Blair ar wahân i'w gymheiriaid ydi aeddfedrydd telynegol a cherddorol ei sgrifennu.

Bellach enillodd Blair ei blwy'n gadarn yn un o'r doniau mwyaf cyffrous ddaeth i'r fei o Brydain mewn blynyddoedd diweddar.

**£14.00 ymlaen llaw**

**£15.00 ar y diwrnod**

Tocynnau mantais safonol:  
pob tocyn £2.00 yn rhatach  
(gweler tudalen 30). Iau na 15:  
£5.00 yr un. Aelodau REACT:  
£10.00 yr un.



Tudalen 32

## Elkie Brooks

Mewn rhyw fan yng nghyngherddau byw Elkie mae hi'n gwneud rhywbeth mor syfrdanol nes gadael ei chynulleidfaoedd bron dan gyfaredd. Fe allai fod yn ddehongliad arbennig o ddwys o un o'i baledi, canu'r felan yn wefreiddiol rymus neu un o'i nodau nodweddiadol, amhosib o hir, sy'n llorio'r gynulleidfa â hud.

Bydd Elkie'n perfformio ei hits mwyaf gan gynnwys *Pearl's A Singer*, *Lilac Wine*, *Don't Cry Out Loud* a *No More The Fool* yn ogystal â llawer eto sydd ar ei halbwm aeth â hi'n ysgubol yn ddiweddar *Elkie Brooks – Pearls – The Very Best Of*.

*'still one of the great British voices'*

The Guardian

[www.elkiebrooks.com](http://www.elkiebrooks.com)

**£28.50 & £32.50**

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau  
£28.50 yr un.

Ar Werth yn Awr



Tudalen 32



IAU 6 7.30pm

GWENER 7 8.00pm



## Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC

Shostakovich Concerto  
Piano Rhif 2

**Mark Wigglesworth**  
*arweinydd*

**Martin James Bartlett** *piano*

Shostakovich *Concerto*  
Piano Rhif 2  
Mahler *Symffoni Rhif 1*

Daw'r tymor i ben â thu  
ysgafnach Shostakovich  
a Mahler, yn cyfleu egni  
glasoed ar yr un pryd â  
synnu at ryfeddodau natur.

**£15.00 – £41.00**

Rhai Gostyngiadau Ar Gael.  
Ar Werth yn Awr

Sgwrs Cyn y Cyngerdd 6.30pm  
(dalwyr tocynnau).



## Stewart Francis

Into The Punset

Dyma enillydd Dave's Funniest Joke Of The Fringe, y dewin un llinell ysgubol o lwyddiannus, ddaeth bellach yn enw ar enau pawb yng ngwledydd Prydain dros y deng mlynedd aeth heibio, diolch i'w 'jôcs perffaith o grefftus' a'i amseru deheuig, yr aeth â nhw ar daith o gwmpas gwledydd Prydain, ac i Wyl Caeredin, i dai dan eu sang.

Daeth clod drwy'r gwledydd i ran Stewart yn yr Unol Daleithiau a'i famwlad Canada, yn ogystal ag yma yng gwledydd Prydain. Ymhlith sioeau eraill lle'r ymddangosodd mae *Mock The Week*, *Live At The Apollo*, *Celebrity Mastermind* a *Not Going Out*, *Dave's One Night Stand* ar y BBC, ac *8 Out Of Ten Cats* ar Sianel 4.

Mae bellach yn bryd i ni eistedd yn ôl a chael blas, am y tro olaf, ar ei jôcs tan gamp ar ei daith canu'n iach. Dewch i'w weld cyn iddo'i miglo hi... **INTO THE PUNSET.**

**£25.00**

Ar Werth yn Awr





**BBC**

**CARDIFF SINGER  
OF THE WORLD**

**CANWR Y BYD  
CAERDYDD**

**Pwy fydd ar  
ben y byd?**

**Dydd Sadwrn 15 –  
Dydd Sadwrn 22 Mehefin**

Rhwng dydd Sadwrn 15 a dydd Sadwrn 22 Mehefin 2019, bydd dinas Caerdydd, heb sôn am donfeddi'r BBC, yn llawn canu ardderchog wrth i 20 o gantorion ifanc gorau'r byd gystadlu am deitl BBC Canwr y Byd Caerdydd. Mae'r gefnogaeth gan ein cynulleidfaoedd bob amser yn anhygoel, ac rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu unwaith eto i fwynhau'r ddrama, y cyffro - a'r dadleuon yn y bar am benderfyniadau'r beirniaid! Peidiwch â cholli'r cyfle i sicrhau eich tocynnau.

**Prif Wobr y Rowndiau  
Rhagarweiniol**

Dydd Sul 16 – Dydd Mercher  
18 Mehefin, 7pm

£18 | £30 | £42 (pris tocyn fesul rownd)

**Prif Wobr y Rownd Derfynol**

Dydd Sadwrn 22 Mehefin, 7pm

£28 | £55 | £70

Tocynnau Tymor y Brif Wobr: Efallai y bydd nifer cyfyngedig o Docynnau Tymor ar gael ar gyfer pob un o'r pedair rownd ragarweiniol a'r rownd derfynol, cysylltwch â'r Swyddfa Docynnau ar 029 2087 8444 am fanylion.

**Rownd Derfynol Gwobr y Gân**

Nos Iau 20 Mehefin, 7pm

£22 (Gall deiliaid Tocynnau Tymor y Brif Wobr brynu tocynnau ar gyfer Rownd Derfynol Gwobr y Gân am £20 yn unig)

Sylwer: Does dim tocynnau ar ôl ar gyfer rowndiau rhagarweiniol Gwobr y Gân yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ddydd Sadwrn 15 - dydd Llun 17 Mehefin ond gallwch holi yn nes at yr amser ar 029 2087 8444 rhag ofn y bydd rhywun wedi canslo neu rhag ofn y bydd mwy o docynnau'n cael eu rhyddhau.



**stdavidshallcardiff.co.uk 029 2087 8444**

**BBC** | **cymru  
wales**



**CARDIFF  
CAERDYDD**

**BBC  
MUSIC**

**MAWRTH 25** 7.30pm



## Philharmonia – The Planets

Jamie Phillips *arweinydd*  
Clare Hammond *piano*

Sibelius *Wrth Borth y Castell, o Pelléas et Mélisande*  
Williams *Cyfes o Close Encounters of the Third Kind*  
Connesson *The Shining One*  
Holst *The Planets*

Dewch at y Philharmonia ar daith wefreiddiol i chwilio'n glywedol seryddiaeth, ffantasi a mytholeg. Gewch chi ddarganfod bydau anhysbys yr henfyd drwy un o sgorau ffilm mwyaf eiconig y 1970au, concerto piano cyfoes gan y cyfansoddwr o Ffrancwr Guillaume Connesson ac arolwg epig Holst ar y planedau a sgrifennwyd yn ystod y Rhyfel Mawr.


**£10.00 – £41.00**

Rhai Gostyngiadau Ar Gael.

Tocynnau Platinwm (yn cynnwys sedd yn Rheng 1, rhaglen a gwyaiddad o Prosecco): £49.50.

Ar Werth yn Awr

Sgwrs Cyn y Cyngerdd 6.30pm – Mynediad Am Ddim.



**MERCHER 26** 7.30pm



## Woman to Woman

Judie Tzuke,  
Beverley Craven a  
Julia Fordham

(Wedi'i ad-drefnu o 10 Ebrill)

Mae taith Woman To Woman yn dwyn ynghyd dair o hoff gantoresau a chyfansoddwyr caneuon gwledydd Prydain, a'r enwocaf, Judie Tzuke, Beverley Craven a Julia Fordham. Bydd y profiad bythgofiadwy yma'n gyfle i glywed hoff ganeuon gan gynnwys y llwyddiannau ysgubol drwy'r byd yn grwn *Promise Me, Happy Ever After, Welcome To The Cruise, Holding On, (Love Moves In) Mysterious Ways*, y gân atgofus *Stay With Me Till Dawn* a llawer o fferynnau eraill yn cynnwys y sengl newydd hyfryd *Safe* a chaneuon o'u halbwm nesaf.

**£29.50 | £35.00 | £37.50**

**VIP: £77.00**

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £29.50 yr un.

Ar Werth yn Awr

# Ar Fynd

IAU 27 8.00pm



## The Horne Section 2019

That's How I like My Tour

Yn dilyn eu cyfres ysgubol o lwyddiannus ar BBC Radio 4, a blynyddoedd lawer o sioeau dan eu sang yng Ngŵyl Ymylon Caeredin a West End Llundain, peidiwch â cholli hoff hoelion wyth pawb yn *Dictionary Corner* ar *8 out of 10 Cats Does Countdown* a'r band cyntaf erioed i lywyddu *Never Mind The Buzzcocks* (BBC 2).

Yng nghwmni pum cerddor eithriadol ac un stand-up sydd heb fod yn gerddor, bydd yma gomedi, caneuon, dawnsio brwd a llond gwlad o chwarae'r bili-ffŵl. Dyma sioe heb ei hail gan y band aruthrol o ddawnus ac Alex Horne, creawdwr a chyd-lywydd Taskmaster a enwebwyd am Bafta ac Emmy, ac a enillodd y Sioe Adloniant Orau yng Ngwobrau Darlledu'r llynedd.

**£27.50**

Ar Werth yn Awr



GWENER 28 7.30pm



## Cerddorfa Symffoni Coleg Brenhinol Cymru

*Adams Short Ride in a Fast Machine*  
*Mark Anthony Turnage Riffs and Refrains*  
*Copland Symffoni Rhif 3*

Nodau enfawr *Fanfare for the Common Man* Copland yn ymgodi uwchlaw finale ei Drydedd Symffoni ydi uchafbwynt cyngerdd sy'n wfreiddiol gan egni cwbl Americanaidd, yn cychwyn yn gyffrous ar wib â John Adams, wedyn *Riffs and Refrains* dinesig, caled Mark-Anthony Turnage a ysbrydolwyd gan jazz. Sbloets o stondin i Gerddorfa Symffoni Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru – ar ei llawn rym.

**£14.00**

Iau na 25: £6.00 yr un. Pob tocyn £2.00 yn rhatach i Gyfeillion Neuadd Dewi Sant a hawlwr.

**SADWRN 29** 7.30pm



## Beethoven a Shostakovich

Grym Cerddoriaeth

**Cerddorfa Ffilharmonig Caerdydd**

**Michael Bell *arweinydd***  
**Giuseppe Guarrera *piano***

Mae sbloets haf Cerddorfa Ffilharmonig Caerdydd yn cynnwys *Agorawd Cockaigne* hwyliog Elgar, llun cerddorol o Lundain ar droad yr ugeinfed ganrif. Fe'i clywir yma gyda Phumed Concerto Piano 'Ymerawdwr' meistrolgar Beethoven a Phumed Symffoni Shostakovich - gwaith ac iddo eithafion teimladol aruthrol, a sgrifennwyd ar anterth grym Stalin.

**£5.00 – £ 22.00**

Rhai Gostyngiadau Ar Gael.  
Ar Werth yn Awr



hynt Tudalen 32

**SUL 30** 8.00pm



## Taking Care of Elvis – The King is Back

Ben Portsmouth

Mae selogion drwy'r byd yn grwn yn taeru mai Ben Portsmouth ydi'r tebycaf i Elvis Presley a welson nhw erioed. Yn 2012, enillodd Ben Gystadleuaeth Elvis Presley Enterprises yn Memphis, sef yr *Artist Teyrnged Elvis Gorau Erioed*, gyda'i goroni'n 'Artist Teyrnged Elvis Gorau Drwy'r Byd Yn Grwn', yr artist cyntaf o'r tu allan i'r Unol Daleithiau i ennill y teitl yma sydd mor fawr ei fri. Dyma Ben yn dod â'i steil a'i garisma i'w ganlyn, i ddangos i gynulleidfaoedd pam mae'n cael ei ystyried y gorau yn y busnes.

**£32.00 | £35.00**

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £32.00 yr un.  
Ar Werth yn Awr

**LLUN 1** 7.00pm



## Cerddoriaeth Gwent

Cyngerdd Stodin Haf 2019

Mae'r Cyngerdd Haf yma yn rhoi llwyfan i ddisgyblion o Flaenau Gwent, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen ac yn addo'n deg bod yn ddigwyddiad arbennig iawn i'r gynulleidfa a'r perfformwyr fel ei gilydd. Yn ogystal â chyfraniadau gan grwpiau Cerddoriaeth leuenctid Gwent a grwpiau'r Ganolfan Gerdd a berfformiodd yng ngwyliau rhanbarthol MFY ym mis Mawrth, bydd yna gôr yn llu o ysgolion o bob un awdurdod. Bydd grwpiau Cerddoriaeth Gwent hefyd yn eich difyrru chi cyn y cyngerdd ac yn ystod yr egwyl ar Lefel 3.

**£8.50 | £10.50 | £12.50**

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler tudalen 30). Ar Werth yn Awr

# Ar Fynd

**MAWRTH 2 &  
MERCHER 3** 7.30pm



## John Barrowman

The Fabulous Tour

Mae'r cawr o ddiddanwr, John Barrowman, yn ei ôl o'r jyngl ac ar daith yng ngwledydd Prydain. Dathlu deng mlynedd ar hugain John yn mynd adloniant mae *John Barrowman Fabulous*, o *Anything Goes* yn y West End hyd at ei lwyddiant yn ddiweddar ar *I'm A Celebrity Get Me Out of Here*. Mae'n fwyaf adnabyddus ar gorn gyrfa ddisglair yn y West End ac ar Broadway yn ogystal â rolau teledu yn *Doctor Who*, *Torchwood*, ac *Arrow*.

Dewch i fwynhau noson allan fondibethma, yn ganeuon a straeon o yrfa ryngwladol y seren yma.

*Rhaid i blant dan 14 fod yng nghwmni oedolyn.*

**£27.50 | £37.50 | £47.50 | £57.50**

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £27.50 yr un.

Ar Werth yn Awr

**hynt** Tudalen 32

**SADWRN 6** 7.00pm



## City Voices Cardiff Top Hits

Dathlu corawl hits fu ar frig y siartiau dros y degawdau

**Simon Curtis cyfarwyddwr cerddorol**

Yn TOP HITS mae City Voices Cardiff yn cynnig y cymysgedd corawl parti perffaith o hits fu ar frig y siartiau dros y degawdau ac rydym am i chi ddod aton ni i'r parti! Gewch chi rywbeth at ddant pawb yn jiwcbocs City Voices Cardiff, a hit o bob degawd o'r 1950au hyd y dydd hwn gan gynnwys Syr Tom Jones, y Beatles, Coldplay, John Legend, Queen a Lady Gaga – ag enwi ond dyrnaid.

**£14.00**

Rhai Gostyngiadau Ar Gael.  
Ar Werth yn Awr

**hynt** Tudalen 32

**SUL 7** 6.00pm



**Debbie Champan Dancers  
yn cyflwyno**

## Dansation XIV

Yn dathlu pedair blynedd ar ddeg ar hugain o'r Debbie Champan Dancers, fel y'u gwelwyd ar *Britain's Got Talent* a *Got To Dance Sky*. Dônt yn eu holau i Neuadd Dewi Sant ac i'w canlyn sioe newydd sbon danlli grai: Dansation XIV.

*"Choreography, precision, technique these guys have it all. I love them!"*

Kimberley Wyatt – Pussycat Dolls

Mae'r perfformiad yma er budd Maggie's Centres, [www.maggiescentres.org](http://www.maggiescentres.org).

**£12.00 | £13.00**

Pobl dros eu 60, Plant a Myfyrwyr: pob tocyn £2.00 yn rhatach. Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £12.00 yr un. Grwpiau o 10–19: pob tocyn £1.00 yn rhatach. Grwpiau o 20 neu fwy: pob tocyn £2.00 yn rhatach.  
Ar Werth yn Awr

**hynt** Tudalen 32

**MAWRTH 9** 8.00pm



EmyrYoung\_LleuwenSiwdio

## Gwrando'r Gwreiddiau

Lleuwen

Mae PYST yn falch o gyhoeddi taith newydd gan **Lleuwen**. Ers ei ryddhau cafodd *Gwn Glân Beibl Budr* groeso brwd gan y beirniaid a chynulleidfaoedd. Fel y dywedodd y wefan *From The Margins* ar ddu a gwyn yn ddiweddar:

'Every syllable on *Gwn Glân Beibl Budr* is sung from the soul... **Lleuwen's** vocals can effortlessly range from grace to anger in a beat, always evoking emotion in the listener... the album is a career-defining masterpiece'.

Mae *Gwn Glân Beibl Budr* ar gael yn awr ar Recordiau Sain – CD a digidol.

**£15.00 ymlaen llaw**  
**£16.00 ar y diwrnod**

lau na 16: £5.00 yr un. Aelodau REACT: £10.00 yr un. Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £3.00 yn rhatach (gweler tudalen 30).  
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32



**GWENER 12** 7.30pm



## Here Come The Boys

Y sioe y bu pawb yn aros amdani.

Tri ymhlith y sêr roc mwyaf ym myd dawns, Aljaž Škorjanec, Giovanni Pernice a Gorka Marquez, mewn gornest yn erbyn ei gilydd bob nos ym meysydd Lladin, Dawnsio Neuadd, masnachol a chyfoes, ac mae arny'n nhw angen i chi benderfynu ar y pencampwr!

Tendiwch, wledydd Prydain, Dacw'r Hogiau!

**£27.50 | £31.00 | £40.00**  
**£45.00**

**+ £100 am uwchraddiad VIP**  
Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £27.50 yr un.  
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

**SADWRN 13** 7.30pm



## Stuart Townend a Cambrensis mewn Cyngerdd

**Côr a Cherddorfa Cambrensis**  
**Côr Mawl Dewi Sant**

Daw'r canwr-gyfansoddwr o Gristion sy'n fawr ei glod drwy'r gwledydd, Stuart Townend, at Gôr a Cherddorfa Cambrensis ynghyd â lluoedd mawr Côr Mawl Dewi Sant mewn noson o gerddoriaeth, mawl ac addoli.

Bydd Stuart yn perfformio ar ei ben ei hun, felly hefyd y gerddorfa a'r corau ond am y rhan fwyaf o'r noson byddant yn arwain y gynulleidfa i godi'r to â cherddoriaeth Stuart, yn cynnwys caneuon o'i albwm diweddaraf, *Courage*.

**£15.00**  
lau na 16: £11.00 yr un.  
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

# PROMS CYMRU



**SADWRN 20 GORFFENNAF – SADWRN 27 GORFFENNAF**

## **CROESO I PROMS CYMRU**

Gwlad y gân ydi Cymru, a gwlad dathlu, a phob haf mae Neuadd Gyngerdd Genedlaethol Cymru yn estyn croeso i Proms Cymru.

Bellach ar eu pedwerydd tymor ar ddeg ar hugain, mae Proms Cymru eleni'n addo'n deg bod yn dymor bendigedig o gyngherddau a digwyddiadau'r ymylon. Pa un a ydych chi'n un o garedigion cynefin cerddoriaeth glasurol neu'n dod i Proms Cymru am y tro cyntaf, mae gwledd o gerddoriaeth wych yn eich aros.



SADWRN 20 7.30pm

## Un Cam Bach...

Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC

**Susan Bullock CBE** *soprano*

**Huw Edwards** *cyflwynydd*

**Owain Arwel Hughes CBE** *arweinydd*



Mae Prome 2019 yn cychwyn yn grand o'u co', a Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn dod yn ei hôl i Prome Cymru am y tro cyntaf ers 2014. A'r newyddiadurwr blaenllaw Huw Edwards yn ei gyflwyno, dathliad cerddorol ydi "Un Cam Bach..." o lanio ar y lleud ym 1969, union hanner can mlynedd i'r diwrnod ers i ddyn roi troed gyntaf ar wyneb y lleud.

Dewch i glywed mawredd cyffrous *Hynt y Valkyri*, pigion o *Symphonie Fantastique* aruthrol Berlioz a *Planets* Holst, a godidowgrwydd syfrdanol "New World" Dvořák.

**Bydd y rhaglen yn cynnwys:**

**Tchaikovsky:** *Swan Lake, Y Llyn Lloergan*

**J Strauss II:** *On the Beautiful Blue Danube*

**Wagner:** *Die Walküre, Hynt y Valkyri*

**Dvořák:** *Rusalka, Cân i'r Lloer*

**Puccini:** *La Bohème, They Call Me Mimi*

**Holst:** *The Planets, Jupiter*

**Berlioz:** *Symphonie Fantastique, Yr Ymdaith at y Grocbren*

**Dvořák:** *Symffoni Rhif 9, 'From The New World'*

**Tocynnau: £9.00 – £42.00**

\*Mae pecynnau cerddorfaol Prome Cymru ar gael i'r digwyddiad yma.

Ar Werth yn Awr



hynt Tudalen 32

TAPAS  
GWELER TUDALEN 03

SADWRN 20 – SADWRN 27 (AC EITHRIO SUL 21) 10.30am

## Y Prom Tidli

Bert's Magical Musical Kitchen

Lefel 1

Mae Bert yn cael parti pen-blwydd i'w ffrind Daphne. Mae 'na gymaint i'w wneud, cymaint i'w gynllunio. Wrth lwc mae Cherry Pie yno i roi help llaw ac fe fydd ei ffrindiau o gerddorion yn dod â'u cerddoriaeth. Be allai fynd o'i le?

Cyngerdd cydnaws, rhyngweithiol ydi Bert's Magical Musical Kitchen, i blantos dan bump oed. Cyfle i'r dim i blant ac oedolion gael blas ar gerddoriaeth fyw gyda'i gilydd.

**£7.50**

Rhaid i oedolion a phlant fod â thocyn (plant dan flwydd oed yn mynd am ddim).  
Ar Werth yn Awr



SUL 21 3.00pm

## Prom y Teulu

Boed hindda neu ddrycin gallwch fentro'ch crys na fydd haul Michael Bell a Cherddorfa Ffilharmonig Caerdydd ddim dan gwmwl pan ddôn nhw i godi terfysg yn Neuadd Dewi Sant yn Prom y Teulu eleni. Dewch at Derek Brockway a chast o berfformwyr lleol ifainc ar daith dros yr enfys ac yn ôl. Bydd y cyngerdd yma i'r teulu yn gyflwyniad i'r dim i gerddoriaeth gerddorfaol ac yn ddathliad haf gogoneddus. Gewch chi ddisgwyl cerddoriaeth ddi-dor ac ambell i sbelen o chwerthin a chawodydd o hwyl.

**£12.50**

**Plant dan 16: £7.50**

**Tocynnau am ddim i blant dan 5**

Ar Werth yn Awr



hynt

Tudalen 32



LLUN 22 1.00pm

## Prom yr Organ

Elin Rees

### Ar y cyd â Digwyddiadau'r Organ Caerdydd

Mae gan y cerddor o Gymru Elin Rees yrfa berfformio amrywiol, yn organydd, yn bianydd ac yn gyfeilydd. Enillodd Elin ysgoloriaeth i fynd i'r Purcell School of Music, astudio gydag Ann Elise Smoot cyn mynd yn ei blaen i'r Royal Northern College of Music a graddio â gradd Meistr mewn Perfformio'r Piano Solo. Tra oedd yn y Coleg astudiodd gyda Kevin Bowyer ac roedd yn Ysgolor yr Organ Ymddiriedolaeth Pilling yn Eglwys St Ann's, Manceinion.

Ers 2011 Elin ydi'r Organydd yn Eglwys Plwy Bury, yn cyfeilio i'r côr i wasanaethau yn Eglwysi Cadeiriol Caergaint, Caerliwelydd a Chaerloyw. Mae'n cadw'r ddysgl yn wastad rhwng ei gwaith yn gyfeilydd eglwys a rhaglen berfformio brysur yn rhoi datganiadau'r organ mewn oedfannau drwy hyd a lled y wlad yn cynnwys amryfal eglwysi cadeiriol, yn cyfeilio i gorau, offerynwyr a chanwyr amatur a phroffesiynol fel ei gilydd, ac yn gweithio'n gyfeilydd yn y Royal Northern College of Music.

### £8.00

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach.

Ar Werth yn Awr



hynt Tudalen 32



LLUN 22 7.30pm

## Y Prom Jazz

Capital City Jazz Orchestra

gyda'r gwestai arbennig Clare Teal

Dewch at y Capital City Jazz Orchestra a'r canwr gwadd Clare Teal i noson o glasuron Big Band o oes aur Swing. Gewch chi ddisgwyl cerddoriaeth dan gamp gan fandiau Count Basie a Duke Ellington a chaneuon o lyfr cân mawr America yn cynnwys Cole Porter a Rodgers & Hart.

Yn 2007 y ffurfiwyd y Capital City Jazz Orchestra ac mae ynnddi gerddorion Jazz ymhlith y goreuon yn Ne Cymru. Mae'n chwarae'n rheolaidd mewn Clybiau Jazz drwy hyd a lled Cymru a pherfformiodd yng Ngŵyl Jazz Aberhonddu a Gŵyl Jazz Ryngwladol Abertawe. Yn ystod y deng mlynedd aeth heibio gweithiodd gyda lluo o artistiaid Jazz rhyngwladol gan gynnwys Lee Gibson, Jeff Hooper, Alan Barnes, Mark Nightingale, Dave O' Higgins, Bruce Adams, Nigel Hitchcock a Bobby Shew. Daw yn ei hôl i Proms Cymru am y seithfed flwyddyn ar ôl cyngherddau ysgubol o lwyddiannus gyda Pete Long, Matt Ford, Claire Martin a Lance Ellington.

**£16.50**

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach.

Ar Werth yn Awr



hynt Tudalen 32

TAPAS  
GWELER TUDALEN 03

**MAWRTH 23** 7.30pm

## **Strafagansa Glasurol!**

Bournemouth Symphony Orchestra

**Corws Gŵyl Proms Cymru**  
**Robert Court** *organ*



Croeso'n ôl i Proms Cymru i'r Bournemouth Symphony Orchestra i roi noson inni o hoff gerddoriaeth gan gyfansoddwyr mwya'r byd.

Dewch aton ni i swae o noson yn cynnwys cerddorfa symffoni, corws yn llu ac organ odidog Neuadd Dewi Sant, yn rhai o'r themâu cerddorol mwyaf dramatig ac atgofus a gyfansoddwyd erioed. *Zadok the Priest*, yr *Hallelujah Chorus*, yr Ymdeithgan Fawr o *Aida* a rhagor, a'r cwbl yn dod i ben mewn perfformiad ar raddfa fawr o *Agorawd 1812* aruthrol Tchaikovsky.

**Bydd y rhaglen yn cynnwys:**

**Brahms:** *Agorawd Gŵyl Academaidd*

**Handel:** *Zadok the Priest*

**Verdi:** *Aida, yr Ymdeithgan Fawr*

**Handel:** *Messiah, Hallelujah Chorus*

**Wagner:** *Lohengrin, Preliwd y Drydedd Act*

**Mozart:** *Requiem, Lacrimosa*

**Smetana:** *Má vlast, Vltava (Y Moldau)*

**Elgar:** *Amrywiadau Enigma, Nimrod*

**Tchaikovsky:** *Agorawd, 1812*

**Tocynnau: £9.00 – £42.00**

\*Mae pecynnau cerddorfaol Proms Cymru ar gael i'r digwyddiad yma.  
Ar Werth yn Awr

**hynt** Tudalen 32

**TAPAS**  
**GWELER TUDALEN 03**

MERCHER 24 7.30pm

## Prom y Pres, y Llais a'r Organ

Côr Meibion yn Llu

Bandiau'n Llu

Robert Court *organ*

Beverley Humphreys *cyflwynydd*

Owain Arwel Hughes CBE *arweinydd*

Fe glywch chi hwyl lafardon dros ddeucan a hanner o leisiau meibion yn morio canu, i gyfeiliant band pres yn llu ac Organ fawreddog Neuadd Dewi Sant, i gyd dan faton Owain Arwel Hughes CBE.

Gewch chi ymhyfrydu yn angerdd *Cwm Rhondda a Tydi a Roddaist*, ysblander *Toccata* Widor, *Toccata a Ffiwg* J.S. Bach a rhagor, yn y noson gyffrous yma o emynau mawr Cymru, cytganau opera a hoff weithiau clasurol.

Bydd y rhaglen yn cynnwys:

Wagner: *Tannhäuser, Corws y Pererinion*

Karl Jenkins: *Abide With Me*

Goodwin: *633 Squadron*

Burtch: *Deep Harmony*

Widor: *Symphony No. 5, Toccata*

Sibelius: *Finlandia*

J. S. Bach: *Toccata a Ffiwg yn D Leddf*

Jones: *Y Tangnefeddwyr*

Hughes: *Cwm Rhondda*

Hughes: *Tydi a Roddaist*

Tocynnau: £9.00 – £42.00

\*Mae pecynnau cerddorfaol Proms Cymru ar gael yn awr i'r digwyddiad yma. Ar Werth yn Awr



Tudalen 32



IAU 25 7.30pm

## The Spooky Men's Chorale

Y rhodd sy'n dal i roddi ydi'r Spooky Men's Chorale... mor daranol â gre o wildebeest, mor gyfrwys â llond wagen o Spike Milliganiaid ac mor soniarus â llond clasty o fynaich. Bymtheng mlynedd yn ôl y daeth y côr meibion i'r fei dan smicio llygaid o Fynyddoedd Gleision De Cymru Newydd heb ddim mwy ar eu cyfrif na'u tannau lleisiol enfawr i'w rhyfeddu, dawn dweud ddi-wên, locsys digon i ddychryn y saint a set o hetiau anghymharus, ac maen nhw'n swyno cynulleidfaoedd yn orfoleddus drwy hyd a lled Awstralia, Seland Newydd a gwledydd Prydain byth ers hynny.

Dan chwifio CD sgleiniog newydd sbon danlli grai, *Welcome To The Second Half*, daw'r ensemble garw, gogoneddus yn eu holau i wledydd Prydain ac i'w canlyn eu smaldod gwamal a'u hehangder cerddorol - rhychwant o ganeuon o Georgia, baledi a'u hyfrydwch yn peri distawrwydd llwyr, ail weddau hynod o anaddas, ac anthemau gwŷr perffaith.

### £24.50

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 30).  
lau na 16: £6.25 yr un. Plant 16-25 oed: £12.25 yr un.

Ar Werth yn Awr



hynt Tudalen 32

TAPAS  
GWELER TUDALEN 03

**GWENER 26 7.30pm**

## Prom y Pictiwrws a'r Dramâu Cerdd

Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru

**Sophie Evans | Owain Arwel Hughes CBE *arweinydd***

Yn ei hôl o fawr alw amdani! Dyma ein swae o noson y Pictiwrws a'r Dramâu Cerdd, yn rhoi llwyfan i Owain Arwel Hughes, Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru ac yn syth o'r West End – seren *Wicked*, *The Wizard of Oz* a rhagor, Sophie Evans.

Peidiwch â cholli'r cyngerdd ysblennydd yma i selogion y pictiwrws a dramâu cerdd, yn hen ac ifanc, sy'n cynnwys detholiad i dynnu dŵr o'ch dannedd chi o'r sgorau theatr gerdd mwyaf ysblennydd a hoff draciau sain yr oesoedd o gorwyntoedd Hollywood gan gynnwys *Jaws*, *Bohemian Rhapsody* a rhagor!

**Bydd y rhaglen yn cynnwys detholiadau o:**

**Williams:** *Jaws*

**Mercury:** *Bohemian Rhapsody*

**Badelt/Zimmer:** *Pirates of the Caribbean*

**Morricone:** *Chi Mai*

**Schwartz:** *Wicked*

**Williams:** *Harry Potter*

**Arlen/Harburg:** *The Wizard of Oz*

**Zimmer:** *Gladiator*

**Williams:** *Star Wars*

**Tocynnau: £9.00 – £42.00**

\*Mae pecynnau cerddorfaol Proms Cymru ar gael yn awr i'r digwyddiad yma.  
Ar Werth yn Awr



**hynt** Tudalen 32

**TAPAS  
GWELER TUDALEN 03**

**SADWRN 27 1.00pm**

## Ensemble Cyngerdd Claire Jones

Lolfa L3

Dewch at unawdydd Noson Olaf Proms Cymru 2018, y delynores Frenhinol gynt, Claire Jones i ddatganiad pnawn, ynghyd â'r cyfansoddwr a'r offerynnwr taro Chris Marshall gyda myfyrwyr blaenllaw Ensemble Cyngerdd Claire Jones.

Datganiad pnawn hyfryd cyn y Noson Olaf, yn cynnwys ensemble godidog o ugain telynor, o'r Royal Academy of Music, y Royal College of Music ac ensembles cenedlaethol.

**£12.00**

Tocynnau mantais safonol: pob tocynd £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 30).  
Ar Werth yn Awr





SADWRN 27 7.30pm

## Noson Olaf Proms Cymru

Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru

**Wynne Evans**

**Owain Arwel Hughes CBE *arweinydd***

Un o'r dyddiadau gwirioneddol fawr yn nyddiadur cyngerddau blynyddol Caerdydd - Noson Olaf Proms Cymru! Dewch i gael blas ar wledd o hoff glasuron mewn awyrgylch hwyl a sbri, i gyd dan arweiniad aruthrol Owain Arwel Hughes.

Mae'r Noson Olaf eleni'n cynnwys "Gio Compario" ei hun, Wynne Evans o BBC Wales, ynghyd â *Sorcerer's Apprentice* Dukas, perfformiad cynta'r byd gwaith newydd gan Christopher Wood, a holl hwyl a rhwysg arferol y Noson Olaf.

Dewch â'ch fflagiau, eich balŵns a rhagor ac ymuno yn y canu a'r dathlu sy'n dwyn i'w derfyn yn fyddarol bedwerydd tymor ar ddeg ar hugain Proms Cymru.

**Bydd y rhaglen yn cynnwys:**

**Walton:** *Preliwd a Ffiwg*

**Dukas:** *The Sorcerer's Apprentice*

**Tchaikovsky:** *Nutcracker, Pigion*

**Christopher Wood:** *D-Day* (*\*perfformiad cynta'r byd*)

**Puccini:** *Nessun Dorma*

**Elgar:** *Pomp & Circumstance Rhif 1*

**Karl Jenkins:** *Palladio*

**Anderson:** *The Typewriter*

**Gareth Wood:** *Caneuon Cymru*

**Tocynnau:** £9.00 – £42.00

\*Mae pecynnau cerddorfaol Proms Cymru ar gael yn awr i'r digwyddiad yma. Ar Werth yn Awr



hynt Tudalen 32

TAPAS  
GWELER TUDALEN 03



# Ar Fynd

## GWNEWCH NOSON OHONI – GWNEWCH WYTHNOS OHONI!

Mae pecynnau amryfal ddigwyddiadau gwerth chweil ar gael i holl ddigwyddiadau Proms Cymru. Codwch docynnau'n awr i amryfal ddigwyddiadau ac arbed 5% ar holl brisiau'r Proms cyweirnod.

Yn ogystal â'r dewis o ddigwyddiadau ar wahân yr Ymylon, mae yna hefyd Becynnau Teulu tan gamp ar gael i holl ddigwyddiadau cyweirnod y Proms. Caiff un plentyn dan 16 ddod i ddigwyddiadau cyweirnod AM DDIM gyda phob sedd oedolyn pris llawn a brynir. Wedyn mae unrhyw blant eraill dan 16 yn talu dim ond £6.00 yr un!

Yn olaf, yn ogystal â cherddoriaeth ac adloniant gwych ar gynnig, mae pecynnau Pimm's a gwin ar gael o godi tocynnau ymlaen llaw drwy wefan Neuadd Dewi Sant.

Felly gwnewch noson ohoni, neu hyd yn oed wythnos ohoni! Edrychwn ymlaen at eich croesawu chi a'ch gwsteion i Proms Cymru 2019.

*Cofiwch nad yw'r cynnig tocynnau plant ar gael yn y ddau fand prisiau tocynnau drutaf ac mae uchafrif cyfraddau a chymarebau grwpiau'n berthnasol. Cysylltwch â'r Swyddfa Docynnau i gael gwybodaeth llawn. Nid yw'r cynnig yma'n berthnasol i Prom y Teulu – mae Tocyn Teulu arbennig i gael ar gyfer hwnnw.*

## PRISIAU TOCYNNAU

\*Mae Pecynnau Disgownt ar gael pan fyddwch yn codi tocynnau i ddigwyddiadau Cyweirnod Proms Cymru ill pump gydag arbed 5% ar brisiau tocynnau digwyddiadau sengl.

\*Mae'r disgownt 5% hefyd ar gael pan fyddwch yn codi tocynnau i'n pedwar cyngerdd cerddorfaol cyweirnod.

\*Cofiwch nad yw Rheng 5 ar gael i'r perfformiadau ar 23ain a 24ain Gorffennaf Mae tocynnau promenâd sefyll ar gael i Noson Olaf Proms Cymru yn unig.

	Perfformiad Sengl	4 Cyngerdd Cerddorfaol	5 Cyngerdd Cerddorfaol
Rhengoedd 5, 9 & 13 (cefn) a Phromenadio	£9.00	£34.20	£42.75
Rhengoedd 10 & 12 (cefn)	£15.00	£57.00	£71.25
Rhengoedd 9 & 13 (blaen)	£20.00	£75.00	£95.00
Rhengoedd 3,4,6 & 7. Rheng 11 (cefn)	£24.00	£91.50	£114.00
Rheng 11 (canol), Rheng 10 & 12 (blaen)	£30.00	£114.00	£142.50
Stalau, Rheng 2 & 8, Rheng 11 (blaen)	£33.00	£125.40	£156.75
Rheng 1	£36.00	£136.80	£171.00

## Tocynnau Platinwm: £42.00

Yn cynnwys sedd yn Rheng 1, gwydraid o Pimm's a rhaglen.

**MAWRTH 23 1.00pm**



## Cyngerdd Soundworks

### Lefel 1

Mae Actifyddion Artistig yn cyflwyno cyngerdd ar Lefel 1 Neuadd Dewi Sant yn rhan o'u prosiect Soundworks i oedolion a phobol ifanc a chanddyn nhw anawsterau corfforol a dysgu. Mae'r cyngerdd byr yma'n cynnwys rhaglen amrywiol o gerddoriaeth ddifyr ac ysgafn a berfformir gan Bedwarawd Clarinét Bute ac a gyflwynir gan Philip Richards-May. Mae yn y cyngerdd yma ddigonedd o gyfleoedd i'r ddiguneddfa gymryd rhan ac mae'n rhy dda i'w gollu.

**£7.50**  
Ar Werth yn Awr



## Cadwch Mewn Cysylltiad ac Mewn Cywair – Dewch yn Gyfeillion Pennaf!

Gewch chi fod yn un o'r cyntaf i wybod be sydd ar fynd, cael y llyfryn yn boeth o'r wasg a chael blaenoriaeth yn codi tocynnau, a gostyngiadau'r Cyfeillion am ddim ond £18 y flwyddyn.

Llenwch y ffurflen gais a dechrau mwynhau manteision bod yn un o'n Cyfeillion! benefits of being a Friend of ours!

### FFURFLEN GAIS CYFEILLION NEUADD DEWI SANT

Enw: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad: \_\_\_\_\_

Cod Post: \_\_\_\_\_

Teleffon (yn ystod y dydd): \_\_\_\_\_

Teleffon (gyda'r nos): \_\_\_\_\_

Cofiwch roi cyfeiriad e-bost i ni fel y gallwn roi gwybod i chi'n syth pan fydd sieoau newydd ar werth rhwng llyfrynnau.

Ebost: \_\_\_\_\_

Taliad (ticiwch fel y bo'n briodol)

Rydw i'n amgáu siec/archeb bost yn daladwy i: CYNGOR CAERDYDD am £18 am flwyddyn gyntaf fy aelodaeth o'r Cyfeillion

A wnech chi godi £18 ar fy  Mastercard  Visa

Switch  Delta

Cod Sicrwydd

(y tri rhif olaf ar gefn eich cerdyn)

Rhif y Cerdyn:

Dyddiad Cychwyn: \_\_\_\_\_

Dyddiad Terfyn: \_\_\_\_\_

Rhif cyhoeddi (Switch yn unig) \_\_\_\_\_

Llofnod Deiliad y Cerdyn \_\_\_\_\_

# Maes o Law

## AWST 2019

Sadwrn 31	8.00pm	<b>The Dreamboys – Taith 2019 ym Mhrydain*</b>
-----------	--------	--

## Medi 2019

Gwener 13	7.30pm	<b>What's Love Got To Do With It?*</b>
-----------	--------	--

Sadwrn 14	8.00pm	<b>Paul Smith – Following*</b>
-----------	--------	--------------------------------

Mawrth 17	7.30pm	<b>Hozier*</b>
-----------	--------	----------------

Gwener 20	7.30pm	<b>Hello Again – The Story of Neil Diamond*</b>
-----------	--------	---

Sul 22	2.00pm & 7.30pm	<b>Diversity*</b>
--------	--------------------	-------------------

Llun 23 – Mercher 25	8.00pm	<b>Brydon, Mack and Mitchell*</b>
-------------------------	--------	-----------------------------------

Iau 26	7.30pm	<b>Aled Jones &amp; Russell Watson*</b>
--------	--------	---

Llun 30	Drysau 7.00pm	<b>Belinda Carlisle*</b>
---------	---------------	--------------------------

## HYDREF 2019

Sadwrn 5	8.00pm	<b>Rob Beckett – Wallop*</b>
----------	--------	------------------------------

Sul 6	7.30pm	<b>Penguin Cafe Orchestra*</b>
-------	--------	--------------------------------

Llun 7	7.30pm	<b>Les Musicals*</b>
--------	--------	----------------------

Mercher 16	7.30pm	<b>Kevin Bloody Wilson*</b>
------------	--------	-----------------------------

Iau 17	7.30pm	<b>60s Gold*</b>
--------	--------	------------------

Sadwrn 19	7.45pm	<b>Amanda Palmer*</b>
-----------	--------	-----------------------

Sul 20	3.00pm	<b>The Best of John Williams*</b>
--------	--------	-----------------------------------

Llun 21	7.30pm	<b>The Greatest Love of All*</b> yn serennu Belinda Davids
---------	--------	---

Mercher 23	7.30pm	<b>Friday Night is Music Night BBC Radio 2*</b> yn cyflwyno The Songs of Barry White yn serennu Peabo Bryson i gyfeiliant y Leo Green Orchestra
------------	--------	---

Mawrth 29 & Mercher 30	7.30pm	<b>Tim Minchin*</b>
---------------------------	--------	---------------------

Iau 31	7.30pm	<b>License to Thrill: The Music of Bond*</b>
--------	--------	--

\* Ar Werth yn Awr

## TACHWEDD 2019

Gwener 1	Drysau 7.00pm	<b>Lisa Stansfield – Affection Taith y Dengmlwyddiant ar Hugain*</b>
Iau 7	7.30pm	<b>Ben Elton yn Fyw*</b>
Sadwrn 9	7.30pm	<b>Steve Hackett Genesis Revisited 2019*</b>
Sul 10	3.00pm	<b>Glenn Miller Orchestra*</b>
Llun 11	7.00pm	<b>Celtic Woman*</b>
Mercher 13	7.00pm	<b>Squeeze*</b>
Gwener 15	8.00pm	<b>Russell Kane*</b>
Sadwrn 16	7.30pm	<b>Marillion gyda'u Ffrindiau o'r Gerddorfa* + Harry Pane</b>
Sadwrn 23	7.30pm	<b>Jonathan Pie: The Fake News Tour*</b>
Llun 25	7.30pm	<b>Love Actually* Cyngerdd Byw gyda Cherddorfa Lawn</b>
Mawrth 26	7.30pm	<b>John Robbins: Hot Shame*</b>
Iau 28 & Gwener 29	8.00pm	<b>Romesh Raganathan*</b>

## RHAGFYR 2019

Iau 5	7.30pm	<b>The Bootleg Beatles mewn Cyngerdd*</b>
-------	--------	---

RAYMOND GUBBAY yn cyflwyno

# THE BEST OF JOHN WILLIAMS

O E.T. i Star Wars a'r tu hwnt ... does dim byd tebyg i sgorau  
ffilm eiconig John Williams.

**E.T. HARRY POTTER JAWS STAR WARS  
SUPERMAN JURASSIC PARK  
SCHINDLER'S LIST CLOSE ENCOUNTERS**

Pete Harrison *arweinydd* **LONDON** CONCERT  
ORCHESTRA

Sul 20 Hydref 2019 am 3.00pm

\* Ar Werth yn Awr

# Gwybodaeth am godi tocynnau

**Swyddfa Docynnau: 029 2087 8444**  
**Codi tocynnau ar lein 24 awr y dydd –**  
**www.stdavidshallcardiff.co.uk**  
Gweinyddu: 029 2087 8500  
Ebost: SDHboxoffice@cardiff.gov.uk

Gewch chi bellach ddewis eich sedd eich hun pan fyddwch chi'n codi tocynnau ar lein.

Mewn rhai digwyddiadau, oherwydd y nifer o gwsmeriaid yn y Swyddfa Docynnau, efallai y bydd gofyn i ni stopio gwerthu tocynnau i ddigwyddiadau diweddarach hanner awr cyn rhagfyrhau perfformiad.

## Mae codi tocynnau yn hawdd

Mae'r Swyddfa Docynnau ar agor ddydd Llun tan ddydd Sadwrn 9.30am tan chwarter awr ar ôl rhagfyrhau'r perfformiad (neu 5.30pm pan nad oes perfformiad – ym mis Awst), ddyddiau Sul a Gwyliau Banc awr cyn y perfformiad i bobl sy'n dod yn bersonol yn unig.

**Ffôn** ar 029 2087 8444. Gewch chi dalu ar eich union gyda chardiau debyd neu gredyd neu gadw'ch tocynnau a thalu cyn pen tridiau. Rydym yn derbyn cardiau Mastercard, Visa, Switch a Delta. Dydym ni ddim, fodd bynnag, yn derbyn cardiau Solo nac Electron. I osgoi posibilrwydd cwiâu hir, cofiwch gasglu tocynnau wedi talu amdanynt ymlaen llaw o leiaf hanner awr cyn rhagfyrhau'r perfformiad. Mae'r llinellau telefon yn cau hanner awr cyn amser cau'r Swyddfa Docynnau.

**POST** ysgrifennwch atom ni yn **Neuadd Dewi Sant, Yr Aes, Caerdydd, CF10 1SH** gyda manylion cyflawn ynghylch eich gofynion gan gynnwys y man eistedd sydd orau gennyh ac unrhyw ddisgowntiau sy'n berthnasol. Rhowch eich enw, eich cyfeiriad, eich cod post a'ch rhif ffôn yn ystod y dydd ac amgaewch sic yn daladwy i Gyngor Caerdydd neu fanylion eich cerdyn (gan gynnwys y dyddiad terfyn a rhif dosbarthu Switch), ac amlen â stamp a chyfeiriad er mwyn anfon eich tocynnau.

**AR LEIN** awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Ymwelwch â [www.stdavidshallcardiff.co.uk](http://www.stdavidshallcardiff.co.uk)

Mae'r gwasanaeth yma'n berthnasol i'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau unwaith y bydd y cyfnod codi tocynnau cyffredinol wedi rhagfyrhau. Nid yw llyfnydd cadeiriau olwyn ar gael ar lein. A wnewch chi roi caniad i'r Swyddfa Docynnau i wneud yn siŵr fod eich seddi yn cwrdd â'ch gofynion penodol.

**Neu gallwch e-bostio'ch gofynion o ran tocynnau atom ni yn [SDHboxoffice@cardiff.gov.uk](mailto:SDHboxoffice@cardiff.gov.uk)**

**Yn Wyrdd Amdani** – Ymunwch â'n rhestr e-bost a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am sioeau a chynigion yn syth i'ch blwch derbyn. Ymgofrestrwch yn [www.stdavidshallcardiff.co.uk](http://www.stdavidshallcardiff.co.uk)

## Amddiffyn Data

Pan fyddwch chi'n codi tocynnau i Neuadd Dewi Sant cadwir eich gwybodaeth bersonol ar system gyfrifiadurol y Swyddfa Docynnau. Drwy godi tocynnau rydych chi'n caniatáu cadw'ch gwybodaeth bersonol yn unol â'r Deddfau Amddiffyn Data. Gofynnir i chi a geir defnyddio'r wybodaeth yma:

- i roi gwybod i chi am ddigwyddiadau neu ddatblygiadau i ddod yn New Theatre neu Neuadd Dewi Sant;
- i'w rhoi i gyrrff eraill yn y celfyddydau yn ne Cymru – a allai gynnwys Theatr Sherman, Canolfan Mileniwm Cymru, CBCDC, National Theatre Wales, Canolfan Celfyddydau Chapter, Opera Cenedlaethol Cymru, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Sinfonia Cymru a Ballet Cymru - at ddiben tebyg;
- gan gyrrff heb fod yn y celfyddydau, wedi'u dethol yn ofalus, at ddiben rhagor o wybodaeth a allai fod o ddiddordeb i chi.

Gofynnir i chi ddweud pa ddewisiadau sy'n dderbyniol gennyh. Bydd hyn yn rhoi lle i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol yn unol â'ch dymuniadau.

Gellir rhannu gwybodaeth codi tocynnau cwsmeriaid (ac eithrio manylion cardiau credyd) ag asiantaethau allanol at ddiben dadansoddi. Bydd Neuadd Dewi Sant yn gwneud popeth rhesymol i sicrhau diogelwch data oddi mewn i'r broses yma.

Mae prosesau Neuadd Dewi Sant yn cydymffurfio â Deddf Amddiffyn Data 1998.

Rheolir, cynhyrchir a gweithir ein gwefannau a'n Hysbysebion Swyddogol gan Neuadd Dewi Sant o'n swyddfeidd yn y Deyrnas Unedig. Nid yw Neuadd Dewi Sant yn dweud ar gyfrif yn y byd fod y deunydd a'r wybodaeth ar ein gwefan neu y gellir eu cyrchu drwyddi nac yn addas nac ar gael i'w defnyddio mewn Gwledydd eraill y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

## Tocynnau Mantais

*Mae'r tocynnau mantais sy'n dilyn yn berthnasol i sioeau sy'n crybwyll gostyngiadau yn y panel prisiau:* Cyfeillion Neuadd Dewi Sant, Plant dan 16, Myfyrwyr, \*Pobl dros eu 60, Pobl anabl (ynghyd ag un cydymaith) a Hawlwyr. Dim ond un disgownt y tocyn y cewch ei ddefnyddio ac mae gofyn prawf o'ch statws. A wnewch chi ddweud pa ddisgownt rydych chi'n ei hawlio pan fyddwch chi'n codi'ch tocyn.

Caiff defnyddwyr cadeiriau olwyn (ynghyd ag un cydymaith) godi tocynnau seddi'r stalau am y pris isaf mewn sioeau sy'n crybwyll y gostyngiad yma. Nid yw llefydd cadeiriau olwyn ar gael bob amser a dylid eu cadw nhw trwy'r Swyddfa Docynnau, nid ar lein, er mwyn sicrhau cwrdd ag anghenion penodol y cwsmeriaid.

### **Tocynnau Myfyrwyr**

Mae tocynnau hanner pris hefyd ar gael i gyngherddau yng Nghyfes Cyngherddau Cerddorfaol Neuadd Dewi Sant tan 6.30pm ar ddiwrnod y perfformiad. Rhaid casglu tocynnau ac fe'u rhoddir pan ddangosir cerdyn adnabod myfyrwyr dilyn.

### **Grwpiau**

Rydym yn croesawu partïon o bob maint ac yn cynnig disgowntiau dethol i grwpiau o 10 neu fwy. I godi tocynnau, rhowch ganiad i'r Swyddfa Docynnau ar **02920 878444**.

Mae **Tocynnau Teulu** ar gael i rai digwyddiadau lle dangosir hynny. Mae'r tocynnau ar gyfer Teulu o 4 sy'n cynnwys uchafswm o 2 o oedolion ac o leiaf 1 plentyn dan 16 oed.

\*Efallai na fydd y disgownt yma yn berthnasol.

### **Plant**

Mae gostyngiadau a phrisiau arbennig yn berthnasol i lawer o ddigwyddiadau. Am resymau lechyd a Diogelwch, bydd gofyn i bob plentyn oed cerdded fod â thocyn.

### **Cyfeillion Neuadd Dewi Sant**

Gewch chi ostyngiadau dethol, copi o'r llyfryn gyda llythyr newyddion bob yn ddeufis ac achub y blaen yn codi tocynnau i'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau am ddim ond £18.00 y flwyddyn. Rhowch ganiad i Wendy Scanlon, Trefnydd y Cyfeillion ar 029 2087 8557 am ragor o fanylion.

### **Ad-daliadau, Cyfnewidiadau a Dyblygiadau**

Mae gan Neuadd Dewi Sant feddwl mawr o ymroddiad ei chyngherddwyr yn codi tocynnau'n fuan ac mae'n cydnabod bod pethau annisgwyl weithiau'n eu rhwystro nhw rhag dod. Mae modd cyfnewid tocynnau am unrhyw ddigwyddiad arall am yr un pris neu fwy (o dalu'r gwahaniaeth). Nid yw'r dewis cyfnewid ar gael i gyngherddau sydd wedi gwerthu pob tocyn. Os ydi'r digwyddiad yn rhan o dymor penodol (ee Proms, Bale etc), cynigir tocynnau a gyfnewidir oddi mewn i'r un tymor. Rhaid i docynnau ddod i law yn y Swyddfa Docynnau dim hwyrach na 48 awr cyn y perfformiad gwreiddiol. Mae yna dâl o £2.00 y tocyn am y gwasanaeth yma. (Gwaetha'r modd, ni ellir cyfnewid nac ailwerthu tocynnau a godwyd trwy Ganolfan Gofal Cwsmeriaid y BBC nac asiantaethau allanol yn Neuadd Dewi Sant.)

Fel arall derbynir tocynnau i'w hailwerthu ar yr amod benodol mai tocynnau Neuadd Dewi Sant a werthir gyntaf ac nad oes unrhyw sicrwydd y cân nhw'u hailwerthu. Fedrwn ni ddim ailwerthu tocynnau oni bai bod y tocynnau gwreiddiol yn cael eu dychwelyd i'r Swyddfa Docynnau'n gyntaf. Cedwir 20% o werth unrhyw ailwerthu.

Ar wahân i'r dda wasanaeth yma neu ganslo perfformiad, fyddwn ni ddim yn ad-dalu arian unwaith y bydd tocynnau wedi'u codi. Os canslir perfformiad rhaid dychwelyd tocynnau i'r fan lle codwyd nhw (e.e. Os codwyd nhw trwy un o'n hasiantaethau tocynnau cydnabyddedig, dylid eu dychwelyd nhw'n uniongyrchol atyn nhw).

Os bydd angen tocynnau dyblyg, codir tâl o £2.50 y tocyn am y gwasanaeth yma.

### **Hwyrddyfodiad**

Er mwyn peidio â tharfu ar neb, ni chaiff hwyrddyfodiad fynd i'r awditoriwm ond bai bod saib priodol yn y perfformiad. Gellir gwyllo'r cyngerdd ar deledu cylch cyfyng yn y bar ar Lofa L3.

### **Amodau gwerthu**

Cadwn yr hawl i wneud newidiadau yn y cast neu'r rhaglen os bydd angen. Mae'n bosib y gwaherddir mynediad dan rai amgylchiadau ac efallai na wneir ad-daliad. A wnewch chi fwrw golwg ar eich tocynnau pan godwch chi nhw i wneud yn siŵr eu bod yn iawn. Mae ad-daliadau fel y gwêl yn dda gan Reolwr y Swyddfa Docynnau.


### **Yfed Cyfrifol**

A ninnau'n oedfan adloniant trwyddedig rydym yn hybu yfed cyfrifol. Os bydd unrhyw gwsmeriaid yn dangos arwyddion o feddwdod, ymosodedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, oherwydd diod neu rywbeth arall, cânt eu hebrwng o'r adeilad ac ni chynigir dim ad-daliadau tocynnau.

# Gwybodaeth am godi tocynnau

## SUT I DDOD ATOM

Rydym yng nghalon Caerdydd nesaf at Ganolfan Siopa Dewi Sant ar Yr Aes.



A wnech chi ymorol bod eich ffôn symudol wedi'i ddiffodd yn ystod y perfformiad. Ni chaniateir tynnu lluniau na recordio unrhyw berfformiad.

## GWASANAETHAU I GWSMERIAID



Os oes gennych chi ofynion eistedd arbennig a wnech chi roi gwybod i'r Swyddfa Docynnau.



Mae cyfleusterau i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yn cynnwys lloriau gwastad, cyfleusterau tai bach (yn y Bwyty ac ar Lefelau 2,3,4 a 5) a chownteri lefel isel yn y Swyddfa Docynnau, yr Ystafell Gotiau a Bar Lefel 3. Gall defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith godi tocynnau i seddi cefn y stalau am bris y tocyn rhataf sydd ar gael ar gyfer y perfformiad. Efallai y bydd cwsmeriaid ag anawsterau cerdded yn cael mai seddi'r stalau ydi'r mwyaf hygrych.



Mae system is-goch ar gael yn yr awdutoriw (ac eithrio Rheng 5) a gellir ei defnyddio heb neu gyda chymorth clywed. A wnech chi roi gwybod i staff y Swyddfa Docynnau pan fyddwch chi'n codi tocynnau a rhoddir cyfarwyddiadau defnyddio cyflawn pan gyrrhaeddwch chi ar gyfer y digwyddiad.

Am wybodaeth ynghylch sut y gall cwsmeriaid â nam ar eu symudedd fynd i Neuadd Dewi Sant mewn cerbyd pan fyddan nhw'n mynd i berfformiad neu ddigwyddiadau penodol sydd heb fod yn berfformiadau, ewch i dudalennau Eich Ymweliad a Mynediad y wefan [www.stdavidshallcardiff.co.uk](http://www.stdavidshallcardiff.co.uk) neu roi caniad i'r Swyddfa Docynnau ar **029 2087 8444**. Cofiwch, er mwyn cydymffurfio â chytundeb rhwng Cyngor Caerdydd a Heddlu De Cymru, mai hyn a hyn o

drwyddedau gollwng i gerbydau preifat a rannir ar gyfer pob perfformiad yn ôl y drefn y cyntaf i'r felin gaiff falu.



Mae gwybodaeth am ddigwyddiadau ar gael mewn fformatau Braille a phrint bras o'r ddesg ar lawr gwaelod y Neuadd, Llyfrgell Ganolog Caerdydd a Chymdeithas Deillion Caerdydd. I gael eich copi eich hun rhwch ganiad i'r Adran Farchnata ar 029 2087 8542.



Mae croeso i gŵn tywys. A wnech chi roi gwybod i'r Swyddfa Docynnau pan fyddwch chi'n codi tocynnau.



Cynllun cenedlaethol newydd ydi **Hynt** sy'n gweithio gyda theatrau a chanolfannau celfyddydau drwy hyd a lled Cymru i ymorol bod pethau'n glir ac yn gyson o ran polisi tocynnau teg a mynediad. Mae gan ddeiliaid cardiaid **Hynt** hawl i docyn yn rhad ac am ddim i gynorthwywr personol neu ofalwr yn Neuadd Dewi Sant a'r holl theatrau a chanolfannau celfyddydau sy'n rhan o'r cynllun. Ewch i [www.hynt.co.uk](http://www.hynt.co.uk) i gael gwybodaeth am y cynllun ac i ymuno.